

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar Ddydd Llun, Mehefin 6^{ed}, 2022 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr

P. H. Roberts

Mrs A. Evans

D. Hopkins

24.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ffuddiant.

25.

Lwfans Mynychu yr Aelodau

Roedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi gofyn i bob cyngor ystyried cyflwyno'r lwfans dewisol hwn i Gynghorwyr. Bydd unrhyw daliadau mynychu yn cael eu cynnig pan fydd cynghorydd yn cyflawni busnes swyddogol neu ddyletswydd a gymeradwy-wyd, a bydd gan yr holl aelodau yr hawl i dderbyn tâl am ddigwyddiadau penodol perthnasol. Bydd gan aelod unigol yr hawl i wrthod tâl, a hynny drwy hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig.

Roedd y pwyllgor wedi **argymhell** bod y Cyngor Llawn yn ystyried cymeradwyo'r cynllun, yn amodol ar y meini prawf canlynol:-

a) Y dylid cyflwyno lwfans mynychu o £15 yr aelod am ddyletswyddau penodol cymeradwy. Ni ddylai'r swm hwn fyth fod yn uwch na'r uchafswm blyneddol a argymhellwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sydd, ar hyn o bryd, yn £30 y digwyddiad.

b) Yn y cyswllt hwn dylai'r dyletswyddau a gymeradwy-wyd fod yn gyfyngedig i gyfarfodydd y Cyngor Llawn a'r pwyllgorau. Dylid cyfyngu'r hawliad i un hawliad y dydd/ noson, ni waeth pa faint y nifer o gyfarfodydd a fynychwyd.

c) Wrth gymeradwyo'r swm o £15, cydnabyddwyd y byddai hyn yn golygu gwariant ychwanegol o £3,000 o ran treuliau'r aelodau, gyda'r ffigwr hwnnw'n seiliedig ar 80% o'r aelodau yn mynychu cyfarfodydd, ynghyd â 10% wrth gefn ar gyfer cyfarfodydd ad hoc.

ch) Lluniwyd y gyfradd o £15 drwy gyfeirio at y cyflog byw go-iawn, sef £9.90 yr awr, a bod cyfarfod y cyngor yn para, ar gyfartaledd, am awr a hanner (swm wedi'i dalgrynnu). Dylid glynu at y swm o £15, ac ond ystyried unrhyw godiad yn y dyfodol os y byddai codiad yn y cyflog byw cenedlaethol yn hafal â chyfradd o £17.50. Y gyfradd hon fyddai'r trothwy ar gyfer unrhyw godiad posibl, ac unrhyw bwynt rhewi dilynol a fyddai'n gymwys.

d) Y Pwyllgor Cyllid ddylai benderfynu ar unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

dd) Dylid cyhoeddi manylion y cynllun ar wefan y cyngor.

26. Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 6.50 yh.

Cadeirydd